# Digwyddiadau Rhestredig

## Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau

**Cais am Dystiolaeth**

Cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2024
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 26 Medi 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Y newidiadau i’r drefn digwyddiadau rhestredig ..... 4
3. Termau i'w diffinio ..... 9
4. Diwygio’r Cod ..... 18
5. Y camau nesaf ..... 20


## Atodiad


A1. Ymateb i’r cais hwn am dystiolaeth ..... 21
A2. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth ..... 24
A3. Cwestiynau’r Cais am Dystiolaeth ..... 26

# 1. Trosolwg

### Beth rydym yn galw am dystiolaeth yn ei gylch – yn gryno

Deddf Cyfryngau 2024 yw'r diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth cyfryngau'r DU ers 20 mlynedd. Ei nod yw sicrhau bod pobl ledled y wlad yn parhau i gael mynediad at amrywiaeth eang o deledu byw ac ar-alw o ansawdd uchel, gan sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag niwed a bod strwythurau rheoleiddio'n cael eu diwygio i alluogi'r diwydiant cyfryngau yn y DU i ffynnu.

Un newid a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cyfryngau yw'r drefn digwyddiadau rhestredig, sy'n berthnasol i ddarlledu digwyddiadau penodol o ddiddordeb cenedlaethol, fel y Gemau Olympaidd, Cwpan y Byd y dynion a'r menywod a thwrnameintiau pêl-droed Pencampwriaeth Ewrop, a'r Grand National. Nod y drefn digwyddiadau rhestredig yw sicrhau bod y sylw a roddir i'r digwyddiadau hyn yn dal ar gael yn eang i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, nid yw'n gwarantu y bydd digwyddiadau rhestredig yn cael eu darlledu'n fyw neu ar sianel am ddim, gan nad oes rhaid i ddeiliaid hawliau werthu hawliau byw ac nad oes rhaid i ddarlledwyr eu prynu na dangos y digwyddiadau.

Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn diwygio'r drefn digwyddiadau rhestredig, fel mai dim ond darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel y BBC ac ITV, sy'n gallu darparu "gwasanaethau cymwys" sy'n elwa o'r drefn. Ei nod yw sicrhau bod hawliau i ddarllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig yn cael eu cynnig i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n cael eu galw'n "wasanaethau nad ydynt yn gymwys". Mae'r Ddeddf Cyfryngau hefyd yn ehangu cwmpas y drefn er mwyn i amrywiaeth o ddarparwyr newydd, gan gynnwys gwasanaethau ffrydio, fod yn ddarostyngedig i'r rheolau yn y dyfodol. Nid yw'n newid pa ddigwyddiadau sy'n rhai rhestredig neu nad ydynt yn rhestredig (sy'n fater i'r Ysgrifennydd Gwladol).

Fel rhan o weithredu'r newidiadau hyn, mae'n rhaid i Ofcom ddiffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y drefn a diwygio ein Cod ar ddigwyddiadau rhestredig.

Yn y cais hwn am dystiolaeth, rydym yn gofyn am fewnbwn i'n helpu i gyflawni'r gwaith hwn. Byddem yn croesawu'n benodol dystiolaeth ynghylch sut mae newidiadau yn arferion gwylio cynulleidfaoedd wedi effeithio ar wylio digwyddiadau rhestredig, a newidiadau mewn technoleg ac yn y dirwedd cyfryngau ehangach. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gweld sut mae hawliau ar gyfer digwyddiadau rhestredig yn cael eu pecynnu a'u gwerthu.

Hoffai Ofcom gael ymatebion erbyn 5pm ar 26 Medi 2024.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion yn 2025.

# 2. Y newidiadau i'r drefn digwyddiadau rhestredig

## Beth yw digwyddiadau rhestredig?

2.1 Digwyddiadau a restrir yw digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill o "ddiddordeb cenedlaethol" a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nod y drefn digwyddiadau rhestredig, a sefydlwyd o dan Ran 4 o Ddeddf Darlledu 1996, yw sicrhau bod darllediadau o'r digwyddiadau hyn ar gael yn eang i gynulleidfaoedd.

2.2 Mae'r rhestr o ddigwyddiadau wedi'i rhannu'n ddau grŵp – "Grŵp A" a "Grŵp B" – ac mae'r drefn yn nodi rheolau gwahanol ar gyfer digwyddiadau Grŵp A a Grŵp B. Dyma'r digwyddiadau sydd ar y rhestr[1] ar hyn o bryd:

### Grŵp A

- Y Gemau Olympaidd
- Y Gemau Paralympaidd
- Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA
- Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA
- Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop
- Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Menywod Ewrop
- Rownd Derfynol Cwpan yr FA
- Rownd Derfynol Cwpan yr FA yn yr Alban
- Y Grand National
- Rownd Derfynol Tenis Wimbledon
- Rownd Derfynol Cwpan Rygbi'r Byd
- Y Derby
- Rownd Derfynol Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair

### Grŵp B

- Gemau Prawf Criced a chwaraewyd yn Lloegr
- Gemau nad ydynt yn Rowndiau Terfynol yn Nhwrnamaint Wimbledon
- Pob Gêm Arall yn Nhwrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan Rygbi'r Byd

---

[1] Mae hyn yn adlewyrchu'r fersiwn diweddaraf o'r rhestr a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill 2022 gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (fel yr oedd yn cael ei galw bryd hynny). O dan adran 25(2) o Ddeddf Cyfryngau 2024, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio ac ailgyhoeddi'r rhestr ar y dyddiad y cychwynnir diwygiadau adran 21 i'r drefn digwyddiadau rhestredig (ond nid yw hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau i ba ddigwyddiadau sy'n cael eu rhestru).

- Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad – Gemau sy'n Cynnwys Gwledydd y DU
- Gemau'r Gymanwlad
- Pencampwriaeth Athletau'r Byd
- Cwpan Criced y Byd – y Rownd Derfynol, y Rowndiau Cynderfynol a'r Gêmau sy'n Cynnwys Timau y DU
- Cwpan Ryder
- Pencampwriaeth Golff Agored

2.3 Mae'r drefn bresennol ar gyfer digwyddiadau rhestredig yn gweithio drwy wahardd darlledu digwyddiad rhestredig yn fyw mewn rhai amgylchiadau heb gael cydsyniad ymlaen llaw gan Ofcom.[2] Mae'n ceisio sicrhau bod hawliau i ddarllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig yn cael eu cynnig i ddarlledwyr sy'n bodloni meini prawf penodol, sef "gwasanaethau cymwys". Ar hyn o bryd, mae'r drefn yn dynodi rhai sianeli darlledu – y sianeli darlledu am ddim hynny sy'n cael eu derbyn gan o leiaf 95% o'r boblogaeth – fel gwasanaethau cymwys, a phob gwasanaeth arall fel "gwasanaethau nad ydynt yn gymwys".

## Bydd Deddf y Cyfryngau yn newid y drefn digwyddiadau rhestredig

2.4 Ers dyfeisio'r drefn digwyddiadau rhestredig, mae'r dirwedd cyfryngau wedi newid yn sylweddol. Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn parhau i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r dewis ehangach, sy'n cael ei alluogi gan newid technolegol ac sy'n cael ei groesawu gan gynulleidfaoedd, wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Yn 2023, roedd pobl yn y DU yn gwylio 51% yn llai o deledu sy'n cael ei ddarlledu ar gyfartaledd nag yn 2014.[3] Mae cynulleidfaoedd nawr yn cael gafael ar gynnwys drwy amrywiaeth eang o wasanaethau ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ddarlledwyr gystadlu â phlatfformau cyfryngau byd-eang am amser a sylw cynulleidfaoedd, ac i gaffael yr hawliau ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon.

2.5 Serch hynny, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod â'r pŵer a'r cyrhaeddiad eang i ddod â phobl at ei gilydd i greu profiadau i'r gwledydd eu rhannu. Er enghraifft, ar gyfartaledd, gwyliodd 6.2 miliwn o bobl gêm agoriadol yr Alban ym Mhencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion eleni ar ITV/STV/UTV, naill ai'n fyw neu'n hwyrach yr un diwrnod - sy'n cyfateb i 44% o'r rheini sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar y pryd. Dechreuodd Lloegr eu hymgyrch Euros yn erbyn Serbia ar 16 Mehefin gyda chynulleidfa gyfartalog ar y diwrnod o 10.5 miliwn, sef 60% o bobl yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar y pryd.[4]

2.6 O ystyried y newidiadau yn nhirwedd y cyfryngau, mae'r Senedd Brydeinig wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r drefn digwyddiadau rhestredig drwy'r Ddeddf Cyfryngau. Ymysg pethau eraill, bydd y Ddeddf Cyfryngau yn newid y diffiniad o "wasanaethau cymwys" fel mai dim ond gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n

[2] Caiff ein meini prawf ar gyfer rhoi cydsyniad ei esbonio yn ein Cod ar chwaraeon a digwyddiadau rhestredig a dynodedig eraill. Byddwn yn diweddaru'r Cod hwn wrth roi'r newidiadau i'r drefn digwyddiadau rhestredig ar waith.
[3] Data 28 diwrnod cyfunol BARB ar setiau teledu yn unig, unigolion (4 oed a hŷn).
[4] Data byw Barb + VOSDAL ar setiau teledu yn unig, unigolion (4 oed a hŷn). Mae ITV1 yn cynnwys ITV+1.

gymwys erbyn hyn, gan gynnwys ar wasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel BBC iPlayer neu ITV, lle mae “dynodi” at ddibenion rheolau newydd ar amlygrwydd sy’n cael eu creu gan y Ddeddf Cyfryngau. Mae hefyd yn ehangu cwmpas y drefn i gynnwys amrywiaeth o ddarparwyr newydd, gan gynnwys gwasanaethau ffrydio.

## Sut bydd y drefn newydd ar gyfer digwyddiadau rhestredig yn gweithio

2.7 Bydd y drefn newydd ar gyfer digwyddiadau rhestredig yn parhau i fod yn berthnasol i “ddarlledu byw” o’r digwyddiadau rhestredig. Yn hytrach na chael ei gyfyngu i sianeli darlledu traddodiadol, bydd nawr yn cynnwys unrhyw wasanaethau y gellir eu defnyddio i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig i gynulleidfaoedd yn y DU, gan gynnwys chwaraewyr ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, platfformau cyfryngau byd-eang a gwasanaethau ffrydio eraill ar y rhyngrwyd.

2.8 Fel o’r blaen, caiff y gwasanaethau hyn eu rhannu’n ddau gategori, sef “gwasanaethau cymwys” a “gwasanaethau nad ydynt yn gymwys”. Gwasanaethau cymwys bellach yw’r rheini sy’n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sydd ar gael am ddim i gynulleidfaoedd, ac sy’n gwneud cyfraniad sylweddol at y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Mae pob gwasanaeth arall yn rhai nad ydynt yn gymwys. Nod y drefn yw sicrhau, lle mae hawliau byw i ddigwyddiad rhestredig yn cael eu gwerthu, eu bod yn cael eu cynnig i wasanaethau cymwys a gwasanaethau nad ydynt yn gymwys.

2.9 I ddangos digwyddiad rhestredig ar wasanaeth sydd o fewn cwmpas y drefn, mae angen awdurdodi darlledu. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr awdurdodiad yn awtomatig, neu fel arall bydd angen cydsyniad gan Ofcom.

2.10 Mae’r drefn hefyd yn rheoleiddio contractau sy’n rhoi hawliau i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig. Rhaid i unrhyw gontract sy’n rhoi hawliau o’r fath bennu a yw’n caniatáu dangos y darllediad byw ar wasanaeth cymwys yn unig, neu ar wasanaeth nad yw’n gymwys yn unig. Ar gyfer contractau ar gyfer digwyddiadau Grŵp A, mae’r drefn yn darparu bod contractau sy’n honni eu bod yn rhoi hawliau ecsgliwsif ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau o’r fath yn ddi-rym. Mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn gymwys yn cael eu gwahardd i bob pwrpas rhag cael hawliau ecsgliwsif i ddigwyddiad Grŵp A a fyddai’n atal hawliau i ddangos darllediadau byw rhag cael eu rhoi i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ac i’r gwrthwyneb).

### Awdurdodi awtomatig

2.11 Ar gyfer digwyddiadau Grŵp A a Grŵp B, bydd darllediadau byw yn cael eu hawdurdodi’n awtomatig pan fydd gan wasanaethau yn y ddau gategori hawliau union yr un fath. Er enghraifft, os yw hawliau i ddangos darllediad byw o rowndiau terfynol Wimbledon yn cael eu dal gan ddarparwr gwasanaeth cymwys (ee y BBC) a darparwr gwasanaeth nad yw’n gymwys (ee Warner Bros Discovery (‘WBD’)), bydd y darlledu ar y ddau wasanaeth yn cael ei awdurdodi’n awtomatig.

2.12 Mae awdurdodiadau awtomatig eraill yn cynnwys y canlynol:

- Ar gyfer digwyddiadau sy’n cynnwys mwy nag un chwaraeon (ee y Gemau Olympaidd), bydd darllediadau byw hefyd yn cael eu hawdurdodi ar yr amod bod hawliau i ddangos “darlledu byw digonol” yn cael eu cynnal gan ddarparwr/darparwyr yn y categori arall.

Byddai hyn yn caniatáu i ddarllediadau byw llawn o ddigwyddiad fel y Gemau Olympaidd gael eu dangos ar wasanaethau nad ydynt yn gymwys (ee gwasanaethau a ddarperir gan WBD) ar yr amod bod “darlledu byw digonol” ar gael ar wasanaethau cymwys darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (ee gwasanaethau a ddarperir gan y BBC) – neu i’r gwrthwyneb.

- Ar gyfer digwyddiadau Grŵp B, megis y Cwpan Ryder, bydd darllediadau byw hefyd yn cael eu hawdurdodi lle mae hawliau i ddangos “darlledu amgen digonol” yn cael eu cynnal gan berson (neu bersonau), yn ogystal â darparwr y gwasanaeth cyntaf. [5]

## Cydsyniad Ofcom

2.13 Gall Ofcom hefyd roi cydsyniad i ddangos darllediad byw o ddigwyddiad rhestredig. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan mai dim ond darparwr yn un o’r ddau gategori sydd â hawliau. Ar gyfer achosion fel y rhain, mae’n rhaid i Ofcom lunio cod sy’n rhoi arweiniad ynghylch ei ddull o roi cydsyniad.

## Lefelau darlledu digwyddiadau rhestredig

2.14 Mae lefel y darlledu y mae’r drefn yn ceisio ei sicrhau yn cael ei dangos ar wasanaethau cymwys yn wahanol:

- Ar gyfer digwyddiadau Grŵp A, nod y drefn yw sicrhau bod yr un lefel o ddarlledu byw ar gael ar wasanaethau cymwys a gwasanaethau nad ydynt yn gymwys, ac eithrio ar gyfer digwyddiadau Grŵp A sy’n cynnwys mwy nag un chwaraeon, lle mae’n ceisio sicrhau bod o leiaf lefel ddigonol o ddarlledu byw ar gael ar wasanaethau cymwys.
- Ar gyfer digwyddiadau Grŵp B, ei nod yw sicrhau bod lefel ddigonol o ddarlledu amgen (gan gynnwys darlledu ar wasanaethau cymwys) ar gael.

## Gweithredu’r drefn newydd

2.15 Rydym yn disgwyl na fydd y drefn digwyddiadau rhestredig newydd yn dod i rym tan 2026. Mae hyn oherwydd bod rhai o’r newidiadau’n dibynnu ar newidiadau eraill i’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cyfryngau yn y Ddeddf Cyfryngau a fydd yn cymryd amser i’w rhoi ar waith. Mae cynlluniau Ofcom ar gyfer gweithredu’r Ddeddf Cyfryngau yn ehangach wedi’u nodi yn ein map ar gyfer rheoleiddio.

2.16 Mae Deddf y Cyfryngau yn darparu na fydd y drefn digwyddiadau rhestredig newydd yn berthnasol i gontractau yr ymrwymir iddynt cyn iddi ddod i rym.

# Mae gan Ofcom rôl yn gweithredu’r newidiadau i’r drefn

2.17 Mae’n rhaid i Ofcom wneud rhagor o ddarlledu mewn is-ddeddfwriaeth i ddiffinio termau penodol sy’n cael eu defnyddio yn y drefn digwyddiadau rhestredig. Dyma nhw:

[5] Mae’n rhaid i Ofcom nodi manylion sut bydd yr awdurdodiad hwn yn gweithio, fel y nodir ymhellach isod. Mae’r awdurdodiad hwn yn adlewyrchu’r arfer presennol ar gyfer digwyddiadau Grŵp B fel y nodir yng Nghod Ofcom ar chwaraeon a digwyddiadau rhestredig a dynodedig eraill, lle mai’r prif fath o ddarlledu amgen yw uchafbwyntiau neu ddarlledu wedi’i oedi.

- “darlledu byw”;
- “darlledu byw digonol” (at ddibenion yr awdurdodiad sy’n berthnasol i ddigwyddiadau sy’n ymwneud â gwahanol chwaraeon, fel y Gemau Olympaidd);
- “darlledu amgen digonol” (at ddibenion yr awdurdodiad sy’n berthnasol i ddigwyddiadau Grŵp B).

2.18 Rhaid i Ofcom lunio cod hefyd sy’n rhoi arweiniad ar faterion penodol sy’n ymwneud â’r drefn. Dyma’r materion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu:

- a ddylid rhoi cydsyniad i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig, lle mae darparwr angen hyn;
- a ddylid rhoi cydsyniad i ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE[6] neu wladwriaeth CTT[7] arall, pan fo darlledwr angen hynny;
- a ddylid dirymu cydsyniad a roddir at y dibenion hynny;
- a oedd yn afresymol disgwyl i berson gydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig neu ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu wladwriaeth CTT arall, at ddibenion penderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi.

2.19 Rydym yn trafod y rhain yn y ddwy adran nesaf.

[6] Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu unrhyw wladwriaeth arall sy'n rhan o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.
[7] Gwladwriaeth, ac eithrio Gwladwriaeth AEE neu'r Deyrnas Unedig, sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol.

# 3. Termau i'w diffinio

3.1 Mae'r adran hon yn egluro'r termau y mae'n rhaid i Ofcom eu diffinio yn y drefn digwyddiadau rhestredig. Mae'n nodi'r gofynion perthnasol a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau ac unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn ein Cod presennol ar chwaraeon a digwyddiadau rhestredig eraill a digwyddiadau dynodedig (y 'Cod'). Lluniwyd y Cod hwn gan y Comisiwn Teledu Annibynnol (rhagflaenydd i Ofcom) ac fe'i parhawyd mewn grym gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Dim ond newidiadau technegol cyfyngedig y mae Ofcom wedi'u gwneud iddo i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith dros y blynyddoedd.

3.2 Rydym yn gwahodd tystiolaeth gan randdeiliaid i gyfrannu at ein gwaith o ddiffinio'r telerau hyn, cyn ymgynghori ar gynigion yn 2025.

## Darlledu byw

Mae'r drefn digwyddiadau rhestredig yn atal darparwyr gwasanaethau cymwys a gwasanaethau nad ydynt yn gymwys rhag dangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig heb awdurdod. Mae hefyd yn rheoleiddio contractau sy'n rhoi hawliau i ddangos darlledu o'r fath.

### Swyddogaeth Ofcom

3.3 Mae gan Ofcom y pŵer i wneud darpariaeth sy'n pennu "o dan ba amgylchiadau y mae darlledu digwyddiadau rhestredig yn gyffredinol, neu ddigwyddiad rhestredig penodol, yn cael ei drin neu ddim yn cael ei drin fel darllediad byw".[8]

3.4 Mae'r diffiniad o "ddarllediad byw" yn bwysig i'r drefn. Mae'n effeithio ar gwmpas y cyfyngiad ar ddangos darllediadau byw (heb awdurdod) a sut mae'r darpariaethau sy'n rheoleiddio contractau sy'n rhoi hawliau i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig yn berthnasol.

3.5 Mae Deddf y Cyfryngau yn caniatáu i Ofcom naill ai ddiffinio 'byw' "yn gyffredinol" neu "ar gyfer digwyddiad rhestredig penodol" (hynny yw, galluogi diffiniadau gwahanol ar gyfer digwyddiadau gwahanol).

### Darpariaeth berthnasol yn y Cod presennol

3.6 Mae ein Cod presennol yn nodi, wrth bennu'r amgylchiadau pan fydd, neu pan na fydd, darllediadau'n cael eu trin fel rhai byw, bod buddiannau gwylwyr yn ymwneud â chaniatáu iddynt gymryd rhan yn y digwyddiad fel y mae'n digwydd, cyn belled ag y bo modd. Mae hefyd yn datgan y dylid diffinio darlledu teledu byw fel darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r digwyddiad. Fodd bynnag, mae'r Cod yn nodi nad oes un diffiniad yn bosibl ac mae'n cynnig y dehongliad canlynol:

- bydd y cyfyngiadau ar ddarllediadau byw yn berthnasol tra bydd y digwyddiad dan sylw ar y gweill;

[8] Ond nid yw hyn yn cynnwys pŵer i ddiffinio "darllediad byw" at ddibenion adran 101B o Ddeddf Darlledu 1996 (cyfyngiad ar ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTT arall): adran 104ZA(2).

- os yw'r digwyddiad yn cynnwys gemau neu gemau ar wahân, bydd y cyfyngiadau'n berthnasol tra bydd pob gêm yn mynd rhagddi;
- yn achos un digwyddiad sydd wedi'i amserlennu i bara dros sawl diwrnod, bydd y cyfyngiadau'n berthnasol i chwarae pob diwrnod, tra bydd ar waith;
- yn achos digwyddiad sy'n cynnwys rhannau diffiniedig ar wahân sy'n gorgyffwrdd mewn amser (ee, y Gemau Olympaidd neu Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA) ac felly na ellir eu darlledu'n llawn ar yr un pryd, bydd y cyfyngiadau'n berthnasol i bob gêm neu gystadleuaeth fel pe bai'n un digwyddiad unigol.

## Meysydd i'w hystyried

3.7 Ers rhoi'r drefn digwyddiadau rhestredig ar waith, mae'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â digwyddiadau allweddol yn y calendr chwaraeon, a sut mae darlledwyr wedi pecynnu a darparu darllediadau ohonynt, wedi newid. Bellach, nid oes rhaid i gynulleidfaoedd eistedd o flaen eu sgrin deledu ar gyfer digwyddiadau chwaraeon y mae'n rhaid eu gwylio. Gall pobl wylio gemau a chystadlaethau drwy wahanol ddyfeisiau a phlatfformau, sy'n cael eu darparu drwy deledu daearol ac ar-lein, ac yn aml olrhain cynnydd ar sawl sgrin gan ddefnyddio sylwebaeth cyfryngau cymdeithasol, testun byw ar y wefan, a chynnwys arall sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon mawr. Wrth ddiffinio beth yw ystyr "darlledu byw" at ddibenion y drefn digwyddiadau rhestredig newydd, rydym yn dymuno ystyried perthnasedd y newidiadau technolegol hyn o ran sut mae digwyddiadau rhestredig yn cael eu dangos.

3.8 Yn y bôn, mae'r canllawiau yn y Cod presennol yn trin y sylw a ddangosir wrth i'r digwyddiad fynd rhagddo fel un "byw" – yn dibynnu ar y chwaraeon, gallai hyn olygu o ddechrau'r diwrnod i'r diwedd, neu o'r chwiban gyntaf i'r chwiban olaf. Nid yw'r Cod presennol yn cyfeirio at sut mae'r darlledu yn cael ei gyflwyno na'i becynnu, ac nid yw'n nodi'n glir a yw darlledu cyn, yn ystod ac ar ôl y gêm yn cael ei gynnwys.

3.9 Fodd bynnag, mae technolegau newydd, sy'n hygyrch i fwy a mwy o wylwyr, yn newid y ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwylio cynnwys. Er enghraifft, mae bellach yn bosibl i gynulleidfaoedd ddechrau gwylio digwyddiad ar ôl iddo ddechrau, ond i'w brofi 'fel ei fod yn cael ei ddarlledu'n fyw', gan ddefnyddio'r swyddogaeth 'gwylio o'r cychwyn'. Erbyn hyn, mae rhai darparwyr hefyd yn cynnig ffrydiau wedi'u curadu, a darllediadau eraill sy'n teilwra'r darlledu o ddigwyddiadau byw (yn enwedig digwyddiadau sydd â mwy nag un rhan, fel y Gemau Olympaidd) i'r defnyddiwr unigol, fel sgriniau aml-wylio. Os yw'r mathau hyn o ddarlledu a swyddogaethau i'w cynnwys yn y diffiniad o 'gynnwys byw', bydd angen iddo fod yn ddigon eang.

3.10 Efallai y bydd angen i'r diffiniad o 'gynnwys byw' fod yn gliriach hefyd ynghylch beth yw'r 'digwyddiad' ac a yw cynnwys ychwanegol sy'n ymwneud â'r chwaraeon ei hun hefyd yn berthnasol. Er enghraifft, mae darlledwyr sy'n dangos digwyddiadau rhestredig hefyd fel arfer yn rhoi sylw i seremonïau agor/cloi a seremonïau gwobrwyo, yn ogystal â darparu sylwebaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

3.11 Rydym yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ar y cwestiynau a nodir isod ac yn annog rhanddeiliaid i gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu safbwyntiau.

**Cwestiwn 1**

Pa faterion ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio "darlledu byw"? Byddem yn croesawu sylwadau ar y canlynol yn benodol:

- Y dull presennol o ymdrin â'r darlledu a ddangosir tra bo'r digwyddiad yn mynd rhagddo fel un "byw";
- Lle mae darlledu byw o ddigwyddiad yn dechrau ac yn gorffen;
- Sut y gallai fod angen i'r diffiniad adlewyrchu swyddogaethau newydd, ee 'gwylio o'r cychwyn.

# Darlledu byw digonol

Bydd newidiadau Deddf y Cyfryngau yn golygu bod darlledu byw o ddigwyddiadau 'aml-chwaraeon', fel y Gemau Olympaidd, gan ddarparwr gwasanaethau nad ydynt yn gymwys wedi'i hawdurdodi os yw "darlledu byw digonol" hefyd yn cael ei ddarparu gan wasanaethau cymwys sydd â hawliau cyfyngedig (ac i'r gwrthwyneb). Rhaid i Ofcom benderfynu beth sy'n cael ei ystyried yn ddarlledu byw digonol.

## Swyddogaeth Ofcom

3.12 Rhaid i Ofcom wneud darpariaeth ar gyfer penderfynu "beth (yn gyffredinol neu mewn perthynas ag amgylchiadau penodol) sydd i'w ystyried i gynrychioli darpariaeth o ddarlledu byw digonol".

3.13 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi awdurdodiad ar gyfer darllediadau byw sy'n berthnasol i ddigwyddiadau rhestredig sy'n "ddigwyddiadau chwaraeon sy'n cynnwys gwahanol chwaraeon". Rydym o'r farn mai'r digwyddiadau perthnasol ar hyn o bryd fyddai'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd (o Grŵp A) a Gemau'r Gymanwlad (o Grŵp B).[9]

3.14 Bydd darllediadau byw o un o'r digwyddiadau 'aml-chwaraeon' hyn ar wasanaeth yn cael ei awdurdodi:

- pan fydd hawliau i gynnwys darllediadau byw o'r digwyddiad hwnnw mewn dau neu ragor o wasanaethau ychwanegol ar wahân i'r gwasanaeth cyntaf wedi'u caffael;
- pan fydd darlledu ychwanegol, yn ei gyfanrwydd, yn ddarllediad byw digonol o'r digwyddiad;
- pan fydd o leiaf dau o'r gwasanaethau ychwanegol yn "wasanaethau rhaglenni teledu"[10];

---

[9] Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio "chwaraeon", mae Ofcom o'r farn, lle mae corff llywodraethu cenedlaethol wedi cael ei gydnabod gan un neu fwy o Gynghorau Chwaraeon yn y DU (hynny yw UK Sport, Sport England,[9] Sport Wales, Sport Scotland a Sport Northern Ireland) ar gyfer gweithgareddau chwaraeon penodol, y gellir ystyried y gweithgaredd chwaraeon hwnnw yn un chwaraeon. Ar y sail hon, ni fyddai Pencampwriaeth Athletau'r Byd yn cael ei hystyried yn chwaraeon gwahanol, gan fod y gweithgaredd chwaraeon perthnasol yn cael ei lywodraethu gan gyrff llywodraethu unigol (ee UK Athletics).

[10] Mae "gwasanaeth rhaglenni teledu" yn golygu gwasanaeth darlledu teledu, gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy ar gyfer y teledu, gwasanaeth rhaglenni teledu digidol, neu wasanaeth teledu cyfyngedig.

- pan fydd bob un o'r gwasanaethau ychwanegol yn cael ei ddarparu gan berson gwahanol i ddarparwr y gwasanaeth cyntaf, yn cael ei ddarparu ar gyfer ardal sy'n cynnwys y cyfan neu bron y cyfan o'r ardal y mae’r gwasanaeth cyntaf yn cael ei ddarparu ar ei gyfer, ac sy’n perthyn i gategori gwahanol i’r cyntaf gwasanaeth.[11] (Mewn geiriau eraill, os yw’r gwasanaeth cyntaf yn wasanaeth nad yw’n gymwys, rhaid i’r gwasanaethau ychwanegol fod yn wasanaethau cymwys.)

3.15 Felly, bydd y diffiniad o ddarlledu byw digonol yn pennu lefel y darlledu y mae’n rhaid iddo fod wedi’i gael er mwyn i’r darlledu byw gael ei hystyried yn ‘ddigonol’ a’r awdurdodiad i wneud cais.

3.16 Wrth ddiffinio darlledu byw digonol, rhaid i Ofcom hefyd ystyried y mathau o ddarlledu byw sy’n debygol o fodloni buddiannau cynulleidfaoedd, yn ogystal â pha mor ddymunol yw hwyluso trefniadau sy’n golygu bod gan ddarparwyr yn y naill gategori a’r llall hawliau i ddarlledu’n fyw. Yn y cyswllt hwn, roedd y Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Ddeddf Cyfryngau yn nodi “y nod yw sicrhau y gall trefniadau partneriaeth rhwng darlledwyr cymwys a darlledwyr nad ydynt y gymwys barhau fel y maent ar hyn o bryd, gan gydnabod bod y drefn bellach yn cwmpasu ystod ehangach o wasanaethau”. Mae’r cytundeb presennol rhwng WBD a’r BBC ar gyfer y Gemau Olympaidd yn arwydd o hyn, ac mae’n cael ei archwilio ymhellach yn yr astudiaeth achos isod.

3.17 Gellir gweld bod yr awdurdodiad hwn yn cydnabod bod tirwedd hawliau cyfryngau chwaraeon yn newid. Mae cost hawliau’n cynyddu, ac mae darlledwyr traddodiadol wedi bod yn cystadlu â chyfryngau byd-eang am hawliau i ddigwyddiadau rhestredig. Efallai y bydd hi’n anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi hawliau llawn i’r prif ddigwyddiadau chwaraeon ac efallai y bydd mwy o ddarlledwyr masnachol yn caffael hawliau, yn ogystal â’r posibilrwydd o ragor o drefniadau rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau nad ydynt yn gymwys i ddangos digwyddiadau rhestredig.[12]

### Astudiaeth achos: y Gemau Olympaidd

Mae Gemau Olympaidd 2024 yn astudiaeth achos ddefnyddiol ar gyfer yr awdurdodiad sy’n ymwneud â “darlledu byw digonol”.

Mae gan WBD hawliau amlgyfrwng i Gemau Olympaidd 2024 ar draws 50 o wledydd yn Ewrop, gan gynnwys y DU. Bydd sylw byw i’r Gemau Olympaidd yn cael ei ddangos yn y DU ar ei ddwy brif sianel chwaraeon, Eurosport 1 ac Eurosport 2, yn ogystal â thrwy ei blatfform ffrydio ‘Discovery+’, sy’n ei alluogi i roi sylw i “*bob eiliad o’r Gemau Olympaidd – pob eiliad o’r 3,800 awr o weithredu byw*”.[13]

[11] Ni fydd gwasanaeth ychwanegol yn cael ei drin yn wahanol i’r gwasanaeth cyntaf lle mae’r gwasanaethau yn (neu’n rhan o) wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig ac unrhyw ran o’r gwasanaeth sy’n cynnwys rhaglenni y gellir cael gafael arnynt yn rhad ac am ddim a lle mae gweddill y gwasanaeth yn cael ei ystyried yn wasanaethau ar wahân yn rhinwedd adran 98(2B).

[12] Yn ei adroddiad Tueddiadau a Dynameg yn y Sector Darlledu Chwaraeon, a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom yn 2022, nododd Ampere Analysis fod gwasanaethau ffrydio a darlledwyr masnachol modern eraill yn cynyddu eu cyfran o hawliau chwaraeon yn y farchnad yn araf, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu dal gan wasanaethau teledu drwy dalu a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y ffigurau diweddaraf ar y pryd yn dangos bod hawliau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr wedi dod yn fwy tameidiog ers 2012, gyda gwerth £641 miliwn o hawliau digwyddiadau rhestredig yn nwylo mwy nag un darlledwr mewn cytundebau ecsgliwsif ar y cyd.

[13] Mae Eurosport, 17 Ebrill 2024, Warner Bros. Discovery yn garreg filltir allweddol drwy gynnig yr olwg gyntaf ar ei gynllun cynhyrchu ym Mharis 2024.

Mae'r BBC wedi caffael hawliau mwy cyfyngedig sy'n ei alluogi i ddangos darllediadau byw ar BBC One neu BBC Two ac un ffrwd arall (sydd ar gael drwy Fotwm Coch y BBC neu BBC iPlayer) ar unrhyw un adeg.

Petai'r newidiadau i'r drefn digwyddiadau rhestredig mewn grym ac yn berthnasol, byddai darllediadau byw WBD ar bob un o'i wasanaethau perthnasol yn cael eu hawdurdodi petai'r sylw ychwanegol ar wasanaethau'r BBC (gyda'i gilydd) yn darparu "darlledu byw digonol".

Byddai'r amodau eraill a nodir yn y ddeddfwriaeth yn cael eu bodloni: byddai hawliau'r BBC yn cynnwys hawliau i gynnwys darllediadau byw mewn dau wasanaeth neu fwy, gan gynnwys o leiaf dau wasanaeth rhaglenni teledu, mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu ledled y DU, a byddant yn wasanaethau cymwys (yn wahanol i wasanaethau WBD nad ydynt yn gymwys).

## Meysydd i'w hystyried

### Mesur darlledu byw digonol

3.18 Wrth ddiffinio darlledu byw digonol, rhaid i ni benderfynu a ddylid cynyddu'r nifer sylfaenol o ffrydiau sy'n uwch na'r isafswm statudol o ddau. Rhaid i ni hefyd benderfynu a ddylid cyflwyno gofynion ar hyd y darllediad byw (fel nifer penodol o funudau neu ganran o'r digwyddiad rhestredig). Gallwn gynnwys gofynion cyffredinol neu "ar gyfer amgylchiadau penodol" (hynny yw gofynion gwahanol ar gyfer digwyddiadau gwahanol). Efallai y bydd angen i ni hefyd ystyried a fyddai angen adolygu'r dull gweithredu rydym yn ei gynnig yn rheolaidd (er enghraifft, wrth i'r digwyddiadau ddatblygu) ac, os felly, sut dylid gwneud hyn.

3.19 Byddai angen i unrhyw ddull gydnabod bod y digwyddiadau aml-chwaraeon y mae'r cysyniad o "ddarlledu byw digonol" yn berthnasol iddynt yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, bydd Gemau Olympaidd Haf 2024 yn cynnwys tua 10,500 o athletwyr yn cystadlu mewn 329 o ddigwyddiadau ar draws 32 o chwaraeon. I'r gwrthwyneb, roedd Gemau Olympaidd y Gaeaf 2022 yn cynnwys tua 2,900 o athletwyr yn cystadlu mewn 109 o ddigwyddiadau ar draws 7 o chwaraeon. Pan sicrhaodd Discovery hawliau amlgyfrwng ecsgliwsif i Gemau Olympaidd y Gaeaf 2022 yn Beijing a Gemau Olympaidd Haf 2024 ym Mharis ar draws 50 o wledydd Ewrop, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf 100 awr o sylw i Gemau Olympaidd y Gaeaf 2022, ac o leiaf 200 awr o Gemau Olympaidd yr Haf, ar gael am ddim ym mhob un o'r tiriogaethau hyn. Mae hefyd yn bosibl ychwanegu digwyddiadau newydd at y rhestr yn y dyfodol.

### Ystyriaethau eraill

3.20 Mae gan Ofcom y pŵer i gynnwys gofynion eraill – y tu hwnt i nifer y ffrydiau neu'r hyd/canran digwyddiad – y byddai angen i'r darllediadau eu bodloni er mwyn bod yn "ddarlledu byw digonol". Gallai hyn gynnwys gofyniad bod gan ddarlledwyr yr hawliau i ddarparu ffrydiau drwy gydol cyfnod digwyddiad, neu nad oes cyfyngiadau ar gynnwys y ffrydiau sy'n cael eu darlledu.

3.21 Efallai y byddwn hefyd am ystyried pa gyfyngiadau cytundebol eraill y gellid eu gosod ar y darparwr sydd â hawliau mwy cyfyngedig (ac effaith y rhain ar wylwyr). Er enghraifft, efallai y byddwn am ystyried a fyddai'n briodol sicrhau bod hawliau'n galluogi cynnwys mecanwaith gwylio penodol – fel swyddogaeth 'gwylio o'r cychwyn' – neu fod y darparwr yn rhydd i ddangos ffrydiau ar unrhyw un o'i wasanaethau heb gyfyngiad.

**Cwestiwn 2**

Pa ffactorau ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio darlledu byw digonol? Byddem yn croesawu sylwadau a thystiolaeth ar y canlynol yn benodol:

- Y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â'r sylw a roddir i ddigwyddiadau aml-chwaraeon a sut mae hyn wedi newid dros amser,
- Yr ystyriaethau sy'n sail i drefniadau lle mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn gymwys yn caffael hawliau byw (gan gynnwys gan ddeiliaid hawliau).

# Digon o sylw i ddigwyddiadau Grŵp B

Mae darlledu digwyddiadau Grŵp B yn fyw wedi'i awdurdodi ac nid oes angen cydsyniad gan Ofcom os bydd "darlledu amgen digonol" yn cael ei ddarparu. Yng Nghod presennol Ofcom, mae darlledu amgen o'r fath yn cyfeirio'n bennaf at uchafbwyntiau neu oedi cyn darlledu. Rhaid i Ofcom benderfynu beth sy'n ddarlledu amgen ddigonol, yn ogystal â'r gofynion y mae'n rhaid i wasanaethau sydd wedi cael yr hawliau i ddarparu darlledu amgen digonol eu bodloni.

## Swyddogaeth Ofcom

3.22 Mae Deddf y Cyfryngau yn creu sail newydd ar gyfer awdurdodi darllediadau byw o ddigwyddiadau Grŵp B. Bydd darllediad byw o ddigwyddiad Grŵp B ar wasanaeth yn cael ei awdurdodi lle:

- mae hawliau i ddarparu darlledu ar gyfer y digwyddiad hefyd wedi cael eu caffael gan un neu fwy o bersonau eraill (yn ychwanegol at ddarparwr y gwasanaeth cyntaf);
- bod darllediad ychwanegol yn golygu darllediad digonol ar gyfer y digwyddiad,
- bod y person neu'r bobl sydd wedi cael hawliau i ddarparu'r ddarpariaeth ychwanegol yn bodloni unrhyw ofynion mewn perthynas â'r darlledu hwnnw a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Ofcom.

3.23 Rhaid i Ofcom benderfynu beth sy'n darlledu amgen digonol (boed hynny'n gyffredinol neu mewn perthynas ag amgylchiadau penodol, ee ar gyfer digwyddiadau Grŵp B penodol). Rhaid i ni hefyd benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth honno y mae'n rhaid i'r unigolyn/unigolion sydd wedi caffael yr hawliau iddi eu bodloni, er mwyn awdurdodi darlledu byw o ddigwyddiadau Grŵp B ac ni fydd angen cydsyniad gan Ofcom. Mae'r awdurdodiad hwn felly'n galluogi darparwr gwasanaeth nad yw'n gymwys i ddarparu darllediadau byw ecsgliwsif o ddigwyddiad Grŵp B, ar yr amod bod mathau amgen digonol o ddarlledu ar gael hefyd (ac i'r gwrthwyneb).

**Astudiaeth achos: Cwpan Ryder**

Gellir defnyddio Cwpan Ryder fel enghraifft i ddangos yr awdurdodiad i roi sylw digonol i ddigwyddiadau Grŵp B.

Mae gan Sky yr hawliau byw i ddangos Cwpan Ryder tan 2025. Ar gyfer digwyddiad 2023, roedd yn darlledu darllediadau byw ar ei sianeli Sky Sports. Roedd y BBC hefyd wedi cael

hawliau darlledu eilaidd ac wedi dangos uchafbwyntiau dyddiol Cwpan Ryder ar BBC Two (ac ar BBC iPlayer a gwefan ac ap BBC Sport), yn ogystal â chael hawliau i ddarparu darllediadau radio cenedlaethol byw. O dan y drefn bresennol, roedd angen cydsyniad Ofcom ond roedd yn cael ei roi'n awtomatig o dan ddarpariaeth yn y Cod presennol gan fod darpariaeth ddigonol ar gyfer darpariaeth eilaidd (fel y'i diffinnir yn y Cod) – Sky fel darparwr "gwasanaethau nad ydynt yn gymwys" a'r BBC fel darparwr "gwasanaethau cymwys".

O dan y drefn newydd, bydd darpariaeth fyw Cwpan Ryder yn cael ei hawdurdodi ac ni fydd angen cydsyniad gan Ofcom os yw'r canlynol wedi'i bodloni:

- Mae'r hawliau i ddarparu darllediadau wedi cael eu caffael gan un neu fwy o bobl eraill ar wahân i ddarparwr y gwasanaeth cyntaf, ee Sky yn dal hawliau i ddangos darllediadau byw ac mae gan y BBC hawliau i ddangos darpariaeth eilaidd;
- Mae darlledu eilaidd yn bodloni unrhyw ofynion a bennir gan Ofcom wrth benderfynu beth yw "darlledu amgen digonol" digwyddiad Grŵp B, ac mae'r BBC (er enghraifft) yn bodloni unrhyw ofynion a bennir mewn perthynas â'r darllediad hwnnw.

## Darpariaeth berthnasol yn y Cod presennol

3.24 Mae creu awdurdodiad ar gyfer darlledu amgen digonol yn adlewyrchu'r arfer presennol ar gyfer digwyddiadau Grŵp B. Mae'r Cod presennol yn nodi y bydd Ofcom yn rhoi cydsyniad ar gyfer darllediadau byw ecsgliwsif o ddigwyddiadau Grŵp B gan ddarlledwr sy'n darparu gwasanaeth mewn un categori os yw "darlledu digonol" wedi cael ei wneud ar gyfer darllediadau eilaidd gan ddarlledwr yn y categori arall.[14]

3.25 Mae'r Cod presennol yn nodi bod "darlledu digonol" yn mynnu'r canlynol:

- *"mae'r ail wasanaeth wedi sicrhau hawliau ar gyfer darparu uchafbwyntiau wedi'u golygu neu ddarlledu wedi oedi sy'n cyfateb i o leiaf 10% o hyd y digwyddiad wedi'i amserlennu (neu'r chwarae yn y digwyddiad sy'n cael ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod), yn amodol ar isafswm o 30 munud ar gyfer digwyddiad (neu'r chwarae yn y digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod) sy'n para awr neu fwy, pa un bynnag sydd fwyaf".*[15]
- *"rhaid i'r ail wasanaeth fod â rheolaeth olygyddol dros gynnwys ac amserlennu'r uchafbwyntiau wedi'u golygu neu gynnwys wedi'i oedi, ac eithrio y gellir gosod cyfyngiad na fydd yr ail wasanaeth yn dechrau darlledu'r uchafbwyntiau wedi'u golygu na'r cynnwys wedi'i oedi, nes bod yr amser wedi mynd heibio ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben (neu'r chwarae yn y digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod)".* Dangosir uchafswm yr oedi y gellir ei osod yn Ffigur 1 isod.
- Yn ychwanegol, rhaid i'r hawl i ddarparu sylwebaeth radio fyw ar y digwyddiad hefyd fod wedi cael ei gaffael gan orsaf radio sydd â darpariaeth genedlaethol neu sefydliad sy'n darparu gwasanaeth chwaraeon i orsafoedd radio sy'n ffurfio rhwydwaith cenedlaethol (neu bron yn genedlaethol).

[14] Paragraff 1.18 y Cod.
[15] Pan fydd gan ddigwyddiad nifer o gydrannau gwahanol yn digwydd ar yr un pryd, mae'r Cod presennol yn nodi bod hyd y digwyddiad wedi'i amserlennu yn cael ei ddiffinio fel yr amser sy'n mynd heibio rhwng pryd mae cydran gyntaf y digwyddiad ar unrhyw ddiwrnod i fod i gychwyn, a phryd mae cydran olaf y digwyddiad i fod i orffen ar yr un diwrnod.

**Ffigur 1: Uchafswm yr oedi a ganiateir ar gyfer uchafbwyntiau digwyddiadau sydd wedi'u hamserlennu ar adegau gwahanol**

| Ar gyfer digwyddiad sydd i fod i orffen: | Uchafswm yr oedi: |
|---|---|
| Ar ôl hanner nos a hyd at 08:00 | I ddechrau erbyn 10:00 fan bellaf |
| Rhwng 08:00 a 20:30 | Hyd at ddwy awr |
| Rhwng 20:30 a 22:00 | I ddechrau erbyn 22:30 fan bellaf |
| Rhwng 22:00 a hanner nos | Hyd at 30 munud |

# Meysydd i'w hystyried

## Darparu uchafbwyntiau ar gyfer digwyddiadau Grŵp B

3.26 Ar hyn o bryd, ar gyfer digwyddiadau Grŵp B, rhaid i'r darlledwr sydd wedi cael hawliau i ddarlledu eilaidd gael rheolaeth dros amserlennu (ac eithrio unrhyw oedi a ganiateir, fel y nodir uchod) a rhaid iddo gael hawliau i ddarparu darlledu am o leiaf isafswm yr hyd. Nid oes darpariaeth yn y Cod presennol ar y fformat y mae'n rhaid cyflwyno uchafbwyntiau.

3.27 Mae darlledwyr fel arfer yn darparu uchafbwyntiau Grŵp B drwy ddangos fel un rhaglen ar ddiwedd pob diwrnod o'r digwyddiad ar wasanaeth teledu sy'n cael ei ddarlledu, ac ar y gwasanaeth ar-alw. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwylio chwaraeon nad yw'n fyw wedi esblygu ers llunio'r Cod. Er enghraifft, mae bellach yn bosibl cyrchu uchafbwyntiau neu gynnwys tebyg ar-lein yn ystod neu'n gyflym iawn ar ôl digwyddiad, gan gynnwys mewn fformatau rhaglenni gwahanol, er enghraifft riliau uchafbwyntiau o'r lluniau gorau a rennir ar gyfryngau cymdeithasol neu grynodebau byr o gemau chwaraeon wedi'u cyfuno ac wedi'u huwchlwytho ar YouTube.

3.28 Mae'r drefn newydd ar gyfer digwyddiadau rhestredig yn cydnabod y newidiadau hyn. Rydym yn nodi bod y Cod ar hyn o bryd yn mynnu bod yr uchafbwyntiau neu'r oedi cyn darlledu ar wasanaeth sydd o fewn cwmpas y drefn, hynny yw gwasanaeth teledu llinol. Gan fod ystod ehangach o wasanaethau o fewn cwmpas y drefn newydd, gallai dull tebyg olygu bod modd cael gafael ar uchafbwyntiau neu gynnwys wedi'i oedi cyn darlledu drwy wasanaethau ar-alw yn unig (sy'n golygu, er enghraifft, y gallai uchafbwyntiau Grŵp B gael eu dangos ar BBC iPlayer yn unig ac nid ar sianel ddarlledu).

3.29 Rydym yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid ynghylch a yw'r darpariaethau presennol yn y Cod, a'r lefelau y maent wedi'u gosod arnynt, yn dal yn briodol – gan gydbwyso anghenion cynulleidfaoedd o ran cael gafael ar uchafbwyntiau mewn modd amserol a buddiannau masnachol o ran cadw gwerth hawliau byw. Rydym hefyd yn gofyn am dystiolaeth ynghylch sut mae newidiadau yn y dirwedd cyfryngau wedi effeithio ar ddarparu a defnyddio uchafbwyntiau, a sut gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y darpariaethau ar gyfer darlledu amgen digonol.

## Sylwebaeth radio fyw o ddigwyddiadau Grŵp B

3.30 Fel yr amlinellwyd uchod, er mwyn i ddarllediadau amgen o ddigwyddiadau Grŵp B gael eu hystyried yn ddigonol o dan y Cod presennol, rhaid i'r hawl i ddarparu sylwebaeth radio fyw ar y digwyddiad hefyd fod wedi cael ei gaffael gan orsaf radio sydd â darpariaeth genedlaethol neu sefydliad sy'n darparu gwasanaeth chwaraeon i orsafoedd radio sy'n ffurfio rhwydwaith cenedlaethol (neu bron yn genedlaethol). Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn rhoi digon o hyblygrwydd i Ofcom gadw, diweddaru neu ddileu'r gofyniad hwn wrth ddiwygio'r Cod.

3.31 Ers cyhoeddi'r Cod, er mai gwrando drwy set radio yw'r ffordd fwyaf cyffredin o wrando o hyd (mae DAB yn cyfrif am 43% o'r amser gwrando wythnosol a chyfrifon AM/FM am 27%), mae gwrando drwy blatfformau ar-lein wedi gweld rhywfaint o dwf, gyda seinyddion clyfar bellach yn cyfrif am 17% o'r amser gwrando a dyfeisiau ar-lein eraill am 11%.[16] Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid a thystiolaeth ynghylch a ddylid diweddaru'r Cod i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad gwrando, yn ogystal â safbwyntiau ehangach ynghylch a yw'r ddarpariaeth hon yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

### Cwestiwn 3

Pa ffactorau ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio darlledu amgen digonol ar gyfer digwyddiadau Grŵp B? Byddem yn croesawu sylwadau a thystiolaeth ar y canlynol yn benodol:

- Y darpariaethau cyfnod lleiaf ac uchafswm yr oedi;
- Y gofyniad am sylwebaeth radio fyw ar gyfer digwyddiadau Grŵp B;
- Y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ag uchafbwyntiau a darllediadau radio ar gyfer digwyddiadau Grŵp B a sut mae hyn wedi newid dros amser.

[16] RAJAR Ch1 2024.

# 4. Diwygio’r Cod

Nid yw’r Cod presennol ar ddigwyddiadau rhestredig wedi cael ei ddiweddaru ers tro, gyda dim ond ychydig o newidiadau technegol wedi cael eu gwneud i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith dros y blynyddoedd. Rhaid i Ofcom lunio Cod wedi’i ddiweddaru fel rhan o weithredu newidiadau’r Ddeddf Cyfryngau i’r drefn digwyddiadau rhestredig. Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar y gwahanol agweddau ar lunio’r Cod hwn.

4.1 Yn y Cod, rhaid i Ofcom roi arweiniad ar y materion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu'r canlynol:

- a ddylid rhoi cydsyniad i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig, lle mae darparwr angen hyn;
- a ddylid rhoi cydsyniad i ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE[17] neu Wladwriaeth CTT[18] arall, pan fo darlledwr angen hynny;
- a ddylid dirymu cydsyniad a roddir at y dibenion hynny;
- a oedd yn afresymol disgwyl i berson gydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig neu ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTT arall, at ddibenion penderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi.

## Meysydd i’w hystyried

### Rhoi a dirymu cydsyniad

4.2 Mae’r Cod presennol yn nodi’r materion y mae Ofcom yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad. Mae hyn yn cynnwys ystyried a yw darlledwyr yn y ddau gategori wedi cael cyfle gwirioneddol i gaffael hawliau i ddigwyddiad rhestredig ar delerau teg a rhesymol.

4.3 Mae’r Ddeddf Cyfryngau yn diwygio’r drefn digwyddiadau rhestredig i gyflwyno nifer o awdurdodiadau ‘awtomatig’ ar gyfer darlledu byw. Nodir y rhain ym mharagraffau 2.11 a 2.12. Pan fydd un o’r awdurdodiadau hyn yn berthnasol, bydd cynnwys darllediadau byw mewn gwasanaeth perthnasol yn cael ei awdurdodi heb fod angen cydsyniad Ofcom. Felly, rydym yn disgwyl y bydd llawer llai o geisiadau am gydsyniad Ofcom yn cael eu gwneud o dan y drefn newydd.

4.4 Yn benodol, mae’r Cod presennol yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y bydd Ofcom yn rhoi cydsyniad i ddarllediadau byw ecsgliwsif o ddigwyddiadau Grŵp B. Bydd yr awdurdodiad ar gyfer achosion lle mae “darlledu amgen digonol” o ddigwyddiadau Grŵp B yn golygu nad oes angen cydsyniad Ofcom mwyach yn yr amgylchiadau hyn.

4.5 Mae’n rhaid i God Ofcom hefyd roi arweiniad ar y materion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dirymu unrhyw gydsyniad a roddir. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, lle rhoddwyd cydsyniad Ofcom ar sail gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

---

[17] Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu unrhyw wladwriaeth arall sy'n rhan o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.
[18] Gwladwriaeth, ac eithrio Gwladwriaeth AEE neu'r Deyrnas Unedig, sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol.

## Digwyddiadau a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTT arall

4.6 Mae hyn yn ymwneud â swyddogaeth Ofcom o roi cydsyniad i ddarlledwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig i ddarlledu digwyddiad sydd wedi'i ddynodi gan Wladwriaeth AEE neu wlad arall sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol ("yr ECTT"), ar gyfer derbyniad yn y wlad honno.

4.7 Gwaherddir darlledwyr o'r fath rhag darlledu digwyddiad dynodedig i'w dderbyn mewn Gwladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTT arall *"lle mae cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn y Wladwriaeth honno wedi'i hamddifadu o'r posibilrwydd o ddilyn y digwyddiad hwnnw drwy ddarllediadau byw neu ohiriedig ar deledu am ddim fel y'i pennir gan y Wladwriaeth honno"* (yn unol â'r gyfraith berthnasol) heb gydsyniad Ofcom.

4.8 Ni wnaeth Deddf y Cyfryngau unrhyw newidiadau i'r darpariaethau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Cod presennol wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth a wnaed o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE.[19] Yn benodol, roedd y newidiadau hyn yn ymestyn y darpariaethau perthnasol i fod yn berthnasol i wledydd sy'n rhan o'r ECTT ond nad ydynt yn Wladwriaethau'r AEE. Byddwn yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn y Cod diwygiedig.

## Gorfodi cydymffurfio â chyfyngiadau

4.9 Bydd Ofcom ond yn gallu cymryd camau gorfodi am fethu cydymffurfio â chyfyngiadau ar ddangos darllediad byw o ddigwyddiad rhestredig heb awdurdod, neu ddarlledu digwyddiad dynodedig heb gydsyniad Ofcom, lle "*nad ydym yn fodlon y byddai'n afresymol o dan yr holl amgylchiadau i ddisgwyl i'r person fod wedi cydymffurfio"* â'r cyfyngiad. Mae rhagor o ganllawiau ar hyn ar gael yn y Cod presennol.

## Rhannau eraill o'r Cod

4.10 Rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn cynnwys canllawiau yn y cod ar sut mae'r drefn digwyddiadau rhestredig yn gweithio ac ar y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gydsyniad gan Ofcom, a byddem yn croesawu safbwyntiau ar y materion hyn.

4.11 Byddem hefyd yn croesawu safbwyntiau ar unrhyw faterion eraill y mae rhanddeiliaid yn awgrymu y dylid eu cynnwys yn y Cod. Er enghraifft, hygyrchedd darlledu digwyddiadau rhestredig ar gyfer pobl anabl.

### Cwestiwn 4

Pa faterion ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiwygio'r Cod digwyddiadau rhestredig? Byddem yn croesawu sylwadau ar y canlynol yn benodol:

- Dull gweithredu a phroses Ofcom ar gyfer rhoi a dirymu cydsyniad;
- Dull a phroses Ofcom ar gyfer rhoi a dirymu cydsyniad i ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTTT arall;
- Dull Ofcom o orfodi cydymffurfiad â'r cyfyngiadau ar ddangos darllediad byw o ddigwyddiad rhestredig heb awdurdod;
- Unrhyw sylwadau ychwanegol ar ddiwygio'r Cod.

[19] Gwnaed y diwygiadau hyn gan Reoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/224) (fel y'u diwygiwyd).

# 5. Y camau nesaf

5.1 Rydym yn croesawu ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth erbyn 26 Medi 2024.

5.2 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion, gan gynnwys Cod drafft a rheoliadau drafft, yn 2025.

# A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

A1.1 Hoffai Ofcom gael ymatebion erbyn 5pm ar 26 Medi 2024.

A1.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/listed-sporting-events/implementing-the-media-act-2024/. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at listedevents@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A1.4 Fel arall, gallwch bostio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl y cais am dystiolaeth arnynt:

Tîm digwyddiadau rhestredig
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y cais hwn am dystiolaeth. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 3. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau.

A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r tîm digwyddiadau rhestredig drwy anfon neges e-bost i listedevents@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ceisiadau am dystiolaeth yn fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i gyfnod y cais am dystiolaeth ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.16 Yn dilyn y cais hwn am dystiolaeth, mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ar gynigion yn 2025.

A1.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i gais am dystiolaeth.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym wrth ein bodd o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth

## Manylion sylfaenol

Teitl y cais am dystiolaeth:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

--------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i gais am dystiolaeth y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben. Os nad yw eich ymateb yn un cyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd y cais am dystiolaeth wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A3. Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth

**Cwestiwn 1**: Pa faterion ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio "darlledu byw"? Byddem yn croesawu sylwadau ar y canlynol yn benodol:

- Y dull presennol o ymdrin â'r darlledu a ddangosir tra bo'r digwyddiad yn mynd rhagddo fel un "byw";
- Lle mae darlledu byw o ddigwyddiad yn dechrau ac yn gorffen;
- Sut y gallai fod angen i'r diffiniad adlewyrchu swyddogaethau newydd, ee 'gwylio o'r cychwyn'.

**Cwestiwn 2**: Pa ffactorau ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio darlledu byw digonol? Byddem yn croesawu sylwadau a thystiolaeth ar y canlynol yn benodol:

- Y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â'r sylw a roddir i ddigwyddiadau aml-chwaraeon a sut mae hyn wedi newid dros amser,
- Yr ystyriaethau sy'n sail i drefniadau lle mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn gymwys yn caffael hawliau byw (gan gynnwys gan ddeiliaid hawliau).

**Cwestiwn 3**: Pa ffactorau ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiffinio darlledu amgen ddigonol ar gyfer digwyddiadau Grŵp B? Byddem yn croesawu sylwadau a thystiolaeth ar y canlynol yn benodol:

- Y darpariaethau cyfnod lleiaf ac uchafswm yr oedi;
- Y gofyniad am sylwebaeth radio fyw ar gyfer digwyddiadau Grŵp B;
- Y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ag uchafbwyntiau a darllediadau radio ar gyfer digwyddiadau Grŵp B a sut mae hyn wedi newid dros amser.

**Cwestiwn 4:** Pa faterion ddylai Ofcom eu hystyried wrth ddiwygio'r Cod digwyddiadau rhestredig? Byddem yn croesawu sylwadau ar y canlynol yn benodol:

- Dull gweithredu a phroses Ofcom ar gyfer rhoi a dirymu cydsyniad;
- Dull a phroses Ofcom ar gyfer rhoi a dirymu cydsyniad i ddarlledu digwyddiad a ddynodwyd gan Wladwriaeth AEE neu Wladwriaeth CTTT arall;
- Dull Ofcom o orfodi cydymffurfiad â'r cyfyngiadau ar ddangos darllediad byw o ddigwyddiad rhestredig heb awdurdod;
- Unrhyw sylwadau ychwanegol ar ddiwygio'r Cod.